

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Mercher 13 Mawrth 2002

Amser: 2.00 hyd 4.30 pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

CADW – CYNLLUN CORFFORAETHOL A THARGEDAU STRATEGOL***Diben***

Bob blwyddyn ariannol bydd Cadw'n cynhyrchu Cynllun Corfforaethol drafft ac yn argymhell targedau strategol ar gyfer y deuddeg mis i ddod. Mae'r papur hwn yn ceisio barn y Pwyllgor ar y cynllun a'r targedau drafft, cyn i Weinidog y Cynulliad eu hystyried.

Crynodeb/Argymhellion

Mae'r Cynllun yn nodi prif weithgareddau'r Asiantaeth a gaiff nawdd cyllideb rhaglen gros o £10,496,000 a darpariaeth costau rhedeg uniongyrchol o £4,899,000, ac mae'n argymhell targedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r Cynllun a'r targedau drafft.

Amseru

Y nod bob blwyddyn yw sicrhau bod Cynllun a thargedau cymeradwy yn eu lle cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn perthyn iddi.

Cefndir/Ystyriaeth

Penderfynwyd ar yr allbwn i'w fesur yn y targedau strategol ym 1994-95 pan adolygwyd yr Asiantaeth ddiwethaf, ac eithrio'r gost net fesul targed ymwelwyr (rhif 11), a gyflwynwyd ym 1996-97. Fodd bynnag, mewn termau meintiol newidiodd y targedau dros amser. Er enghraifft, cododd nifer y rhestrau ailrolygu i'w cwblhau (targed 2) o 40 ym 1994-95 i 80 ar hyn o bryd. Rydym yn argymhell y dylid cynyddu un targed (rhif 4) yn 2002-03.

Bydd Cadw yn cynyddu prisiau mynediad i'r henebion dan ei gofal – a phrisiau eraill cynnyrch a gwasanaethau – fwy neu lai yn unol â chwyddiant yn 2002-03, ar ôl i'r Pwyllgor gymeradwyo

hyn yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2001 ac ar ôl i Weinidog y Cynulliad gytuno arno.

Cydymffurfio

Mae'n ofynnol i Cadw gynhyrchu Cynllun Corfforaethol o dan delerau'r Ddogfen Fframwaith sy'n diffinio ei chwmpas fel Asiantaeth Weithredol – nid oes sylfaen statudol. Cytunwyd ar gyllidebau Cadw eisoes yn ystod y rownd gyllido flynyddol. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio eraill.

Themâu Torri Costau

Mae Cadw'n cydweithio â nifer o gyrff eraill sy'n ymddiddori yn y dreftadaeth adeiledig ar drywydd amcanion cysylltiedig, ac adlewyrchir y rhain yn y Cynllun.

Gamau Gweithredu i'r Pwyllgor Pynciau

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r Cynllun a'r targedau drafft a gwneud sylwadau arnynt, cyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu hystyried.

Enw Cyswllt

Tom Cassidy, Prif Weithredwr Cadw: Welsh Historic Monuments.

Cadw

Chwefror 2002

CYNLLUN CORFFORAETHOL A THARGEDAU STRATEGOL CADW

Nodau

Nodau Cadw, fel a nodir yn ei ddogfen fframwaith, yw:

- sicrhau y diogelir ac y cedwir y dreftadaeth adeiledig yng Nghymru, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- cynnal yr henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol, a'u cyflwyno i'r cyhoedd fel y gallant eu gwerthfawrogi, eu mwynhau a dysgu ohonynt;
- ennill incwm i wneud iawn am gostau'r gweithgareddau hyn.

Caiff y rhain eu crynhoi yn y datganiad: "Amddiffyn, cadw a hybu gwerthfawrogiad o dreftadaeth adeiledig Cymru". Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi saith prif amcan ar gyfer yr Asiantaeth wrth weithio tuag at ei nodau.

1. Hybu'r gwaith o ddiogelu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig trwy arfer grymoedd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i restru adeiladau o'r fath, trwy weithredu'r gweithdrefnau caniatâd statudol ar gyfer adeiladau rhestredig, a thrwy roi cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau.

1.1 Cafodd argyfwng clwy'r traed a'r genau 2001-2002 effaith ddirfawr ar arolwg cymunedol Cymru gyfan Cadw i nodi adeiladau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig ar gyfer eu cynnwys ar y rhestrau statudol. Nid oedd contractwyr rhestru Cadw'n gallu mynd i'r afael â

gwaith maes mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt ac, o'r herwydd, roedd yn rhaid i ni addasu'n rhaglen a chanolbwyntio ar ardaloedd mwy trefol. Adolygwyd y targed o gwblhau 80 o restrau cymunedol a'i newid i 60 o restrau am y flwyddyn, llai o ran nifer y cymunedau ond nid o ran nifer yr adeiladau sydd wedi'u rhestru oherwydd bod mwy mewn ardaloedd trefol. Ar gyfer 2002-2003 bydd y targed yn dychwelyd i gwblhau 80 o restrau. Ein hamcan o hyd yw cwblhau'r gwaith ailarolygu erbyn 2005.

1.2 Yn y cyfamser, bydd Cadw'n parhau i ymateb i geisiadau i ystyried rhestru adeiladau unigol cyn yr ailarolwg cyffredinol. Newidiwyd y targed yn 2001-02 i ymateb yn gyflymach i adeiladau a oedd o dan fygythiad arbennig ac rydym yn cynnig cadw'r targed hwnnw yn 2002-03. Ein hamcan fydd penderfynu ar 90% o achosion rhestru pan fydd adeiladau dan fygythiad o fewn deg wythnos a 90% o achosion rhestru *ad hoc* eraill o fewn 17 o wythnosau.

1.3 Wrth i'r broses ailarolygu gyflymu, mae nifer y ceisiadau caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig yn parhau i gynyddu. Bydd Cadw yn ceisio ymdrin ag 80% o achosion caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig o fewn 4 wythnos a 90% o fewn saith wythnos. Yn 2001-02 ymgynghorodd Cadw ag awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau eraill ynghylch a ddylid dirprwyo'r hawl i benderfynu ar achosion caniatâd mewn perthynas ag adeiladau rhestredig (Gradd II nad ydynt yn cynnwys chwalu adeilad) i awdurdodau cynllunio – ac ar ba delerau. Mae'r cyfnod ymgynghori ar ben ac rydym wedi bod yn ystyried – gyda gweithgorau bach o awdurdodau lleol – fanylion unrhyw ddirprwyo. Byddwn yn paratoi adroddiad ac yn cyflwyno cynigion i'r Gweinidogion, a chyhoeddir canlyniad y broses ymgynghori yn 2002-03.

1.4 Fel rhan o'r un ymarfer ymgynghori, rydym yn cynnig y dylai awdurdodau cynllunio lleol baratoi strategaethau treftadaeth lleol – a chael Cadw i gytuno arnynt – a fydd yn gweddu'n well i amgylchiadau a blaenoriaethau lleol. Gallai dirprwyo'r gwaith o roi caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer rhai adeiladau gradd II fod yn rhan o strategaethau o'r fath, ynghyd â mentrau lleol eraill y mae Cadw wedi bod yn eu hannog yn frwd. Er enghraifft, mae Cadw wedi cynnig grant i awdurdodau lleol ar gyfer paratoi cofrestru adeiladau lleol mewn perygl, i helpu awdurdodau i nodi adeiladau pwysig yn eu hardal fel eu bod yn gallu asesu unrhyw broblemau'n well ac ymateb yn briodol. Mae Cadw hefyd wedi cynnig grant i awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau cadwraeth a strategaethau gweithredu a fydd yn sail i bartneriaethau cynlluniau trefi hanesyddol newydd gyda Cadw i ddechrau o Ebrill 2002. Y nod yw sicrhau bod grant cynlluniau trefi awdurdodau lleol a Cadw yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol ar yr adeiladau sydd fwyaf angen help, yn ogystal â rhoi mwy o gyfrifoldeb yn lleol am y cynllun. Mae pum partneriaeth cynlluniau trefi newydd wedi'u cymeradwyo a gofynnwyd am fwy o wybodaeth mewn perthynas â deuddeg partneriaeth Cynlluniau Trefi posibl arall.

1.5 Mae Cadw'n gwerthfawrogi'r cysylltiad a'r trafodaethau ag awdurdodau cynllunio lleol wrth

ddatblygu mentrau o'r fath ac o ran materion ehangach sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Byddwn, felly, yn cynnal ein cysylltiad ag awdurdodau lleol yn ein Fforwm Treftadaeth Adeiledig ar gyfer swyddogion cadwraeth, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ac yn ein trafodaethau *ad-hoc* gydag awdurdodau lleol, fel bo'n briodol. Yn 2001-02 cawsom wahoddiad i annerch cyfarfodydd aelodau a swyddogion yng Nghasnewydd a Phowys a chafwyd trafodaethau buddiol ar restru, caniatâd adeiladau rhestredig a pholisïau grant.

1.6 Yn 2002-03 rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau Cadw ar gyfer awdurdodau lleol, perchnogion adeiladau ac eraill ynghylch mynediad i adeiladau hanesyddol ar gyfer pobl anabl. Gall nifer o bethau fod yn rhwystr i bobl anabl mewn adeiladau hanesyddol a bydd ein canllawiau ni'n cynnig cyngor ynghylch sut y gellir addasu adeiladau o'r fath i ddarparu mynediad heb effeithio'n ormodol ar gymeriad yr adeilad. Bydd hyn yn gymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ceisiadau am ganiatâd i newid adeiladau rhestredig ac i berchnogion adeiladau sy'n darparu gwasanaethau fel eu bod yn gallu cwrdd â gofynion y Disability Discrimination Act [Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd]. Cafodd y ddogfen ei llunio gyda chymorth grwpiau anabledd ac yng ngoleuni sylwadau Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad.

1.7 Yn unol â chynghor y Cyngor Adeiladau Hanesyddol, mae Cadw'n cynnig cymorth grant bob blwyddyn ar gyfer atgyweirio strwythurau hanesyddol i berchnogion preifat ac awdurdodau lleol, enwadau crefyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Byddwn yn cynnal ein targedau i benderfynu ar 80% o'r ceisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn deunaw wythnos, ac i dalu 90% o'r ceisiadau a gyflwynir yn gywir o fewn pum wythnos ar ôl eu derbyn. Cyflwynwyd cronfa ddata gyfrifiadurol o grantiau adeiladau hanesyddol yn 2001-02 i gynorthwyo'r broses hon.

1.8 Yn dilyn argymhellion Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad mae Cadw wedi adolygu'i drefniadau ar gyfer monitro grantiau adeiladau hanesyddol ac wedi cryfhau ei weithdrefnau. Rydym wedi cyflwyno gweithdrefnau ar gyfer codi tâl cyfreithiol ar adeiladau sy'n derbyn grant dros drothwy arbennig ac yn 2002-03 byddwn yn monitro effaith hynny ar y nifer sy'n derbyn y grant yn ffurfiol. Byddwn hefyd yn cryfhau ymhellach drefniadau i fonitro mynediad cyhoeddus i adeiladau sydd wedi derbyn grant Cadw.

1.9 Byddwn yn parhau i gydweithio â Chronfa Treftadaeth y Loteri i amlhau i'r eithaf y buddion a ddaw i Gymru o'i menter treftadaeth trefluniau. Bydd Cadw'n gweithio â'r Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru i sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i ofalu am yr enghreifftiau gorau ymhlith yr eglwysi a chapelï diangen yn llwyddiannus.

1.10 Mae'r gwaith ar gyfrol olaf y Gofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, sy'n ymdrin â de orllewin Cymru, yn awr wedi'i gwblhau. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd Cadw yn ceisio ffurfioli trefniadau cyfredol er mwyn i awdurdodau lleol allu ymgynghori ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi ar y gofrestr gyffredinol.

2 Hybu'r gwaith o gofnodi a chadw henebion trwy arfer grymoedd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i gofrestru henebion o'r fath, trwy weithredu'r gweithdrefnau caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig, a thrwy roi cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw henebion nad ydynt yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol.

2.1 Mae Cadw'n bwriadu cofrestru 130 o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol eraill yn ystod 2002-03, gan gynyddu'r targed o ddeg. Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, bwriad Cadw fydd sicrhau y cofrestrir y rhan fwyaf o'r henebion mwy adnabyddus yng Nghymru erbyn 2007 ond gallai colli bron i flwyddyn o waith maes, yn sgil argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001-02, olygu na ellir cyrraedd y targed hwn tan 2008. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cadw'n mynd i'r afael â'r grŵp mwyaf sy'n weddill o henebion adnabyddus y mae angen eu hystyried o hyd ar gyfer eu cofrestru, sy'n cynnwys 5,000 o safleoedd cynhanesyddol (tomenni claddu, cylchoedd cerrig a meini hirion). Byddwn yn ariannu pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru i ymgymryd â rhaglen asesu, er mwyn ein galluogi i gynyddu'n sylweddol nifer y safleoedd a gofrestrir.

2.2 Bydd yr Asiantaeth hefyd yn cefnogi gwaith achub archeolegol ledled Cymru trwy roi cymorth grant i'r Ymddiriedolaethau Archeolegol gynnal gwaith maes ar safleoedd sydd dan fygythiad, a rhoi cyngor ar effaith archeolegol cynigion cynllunio.

2.3 Bwriadwn gynnal y cylch pum-mlynedd o ymweliadau â safleoedd cofrestredig gan Wardeiniaid Henebion Maes, fydd yn golygu ymweliadau ag 20% o henebion yn ystod y flwyddyn. Er mwyn gallu mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer yr henebion cofrestredig, penodwyd dau warden ychwanegol yn 2001-02. Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu cronfa ddata gyfrifiadurol o Henebion Cofrestredig yn ystod 2001-02 gan olygu bod y gwaith o ymdrin â data a mapiau'n fwy effeithlon o fewn Cadw a'n bod yn gallu darparu gwasanaeth gwell i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli treftadaeth.

2.4 Bydd Cadw'n parhau i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw henebion a safleoedd archeolegol nad ydynt yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol drwy grantiau henebion a chytundebau rheoli. Adolygwyd y gweithgaredd hwn gan y Bwrdd Henebion yn ystod 2001-02. Roedd yn cydnabod bod cynnydd mawr wedi'i wneud dros y 20 mlynedd diwethaf wrth ddefnyddio cymorth grant i wella cyflwr cyffredinol henebion y mae Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn berchen arnynt. Er hynny, mynegwyd pryder ynghylch nifer yr henebion sy'n eiddo i berchnogion preifat sy'n parhau i fod mewn cyflwr gwael a bydd Cadw yn adolygu'r mater hwn dros y flwyddyn sydd i ddod. Ein nod yw penderfynu ar 80% o achosion grantiau henebion o fewn chwe wythnos a thalu 90% o'r ceisiadau a gyflwynwyd yn gywir o fewn pum wythnos ar ôl eu derbyn.

2.5 Bydd Cadw'n parhau i weithio gydag asiantaethau a sefydliadau cefn gwlad, awdurdodau

lleol a chenedlaethol a chwmnïau cyfleustodau er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r amgylchedd hanesyddol wrth iddynt lunio a gweithredu eu polisïau. Byddwn hefyd yn parhau i gyfrannu at y gwaith o reoli a datblygu cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal ac yn cydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrth weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru i hybu'r Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru ac i gynnal ymarfer i weld beth yw natur y tirlun. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o lyfrynnau yn y gyfres *Gofalu am* ac yn defnyddio gwefan yr Asiantaeth i ledaenu canlyniadau ein gwaith a gwaith sefydliadau eraill y byddwn yn rhoi cymorth grant iddynt.

3. Cynnal yr henebion hynny sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol mewn ffordd sy'n gyson â'u pwysigrwydd archeolegol a hanesyddol ac sy'n rhoi gwerth am arian.

3.1 Mae Cadw'n cynnal 127 o henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol, ac fe wna hyn yn unol â rhaglen waith sy'n seiliedig ar gynnal Arolwg bod Pum-mlynedd o anghenion ar draws yr ystad gyfan ac o gynlluniau rheoli henebion unigol. Wrth gyflawni gwaith cadwraeth (yn yr un modd ag y darparwn grant am waith atgyweirio hanesyddol i adeiladau nad ydynt yn ein gwarchodaeth neu ein meddiant) rydym yn adlewyrchu polisi'r Cynulliad Cenedlaethol o gynaladwyedd wrth gynllunio rhaglen waith, ac o ran y dewis o ddeunyddiau, natur yr ymyrraeth a'r defnydd a wneir o adeiladau ar ôl hynny. Bydd Cadw'n parhau i ddefnyddio ei weithlu ei hun a gyflogir yn uniongyrchol (Cadwraeth Cymru) yn ogystal â chontractwyr arbenigol yn y gwaith hwn. Amcan yr Asiantaeth fydd cwblhau 90% o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth yn 2002-03. Byddwn yn parhau i weithio gyda chymunedau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael â phroblem fandaliaeth ar rai safleoedd.

3.2 Mae'r prosiectau mawr yn cynnwys parhau i atgyfnerthu Gwaith Haearn Blaenafon (Ardal Balance Tower); Castell Caerffili (y Tŵr De Orllewinol); Castell Cas-gwent (Bloc y Clogwyn a'r Siambr); Abaty Tyndyrn (Ystlys Ogleddol y Corff), Plas yr Esgob Tyddewi (Capel yr Esgob) a Chastell Rhuddlan (y Porthdy Dwyreiniol). Cwblhawyd y gwaith o ailddo'r Tŵr Du yng Nghastell Caernarfon a'r gwaith adnewyddu ar Dŵr y Ffynnon yng Nghastell Coch a gweddill y gwaith atgyfnerthu yng Nghastell Dinefwr. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu canolfan ymwelwyr newydd yng Nghaerffili a bwriedir ei hagor ganol haf 2002.

3.3 Ymglymerir â phedwar prosiect ar hugain gan ddefnyddio gweithwyr mewnol, wedi'u trefnu'n saith tîm rhanbarthol (Gorllewin a Dwyrain Morgannwg, Gogledd Gwent a Sir Fynwy, Gorllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru). Caiff chwe phrosiect arall, sy'n werth dros £100,000 yr un, eu rhoi allan ar gontract. Bydd contractau adnewyddu bach eraill hefyd yn cael eu rhoi allan.

3.4 Mae'r arwyddion newydd yn rhybuddio am beryglon wedi'u gosod yn yr holl brif henebion a'r rheini sydd â staff ac mae'r henebion bychain yn cael eu hasesu yn awr ar gyfer gosod

arwyddion lle bo angen. Mae mwy o rheiliau a bariau diogelwch yn cael eu gosod ar safleoedd naw o henebion ar hyn o bryd, a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.

4. Rhoi gwybodaeth, addysgu a denu ymwelwyr i henebion sydd yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol trwy farchnata, cyflwyno a dehongli; a chynorthwyo mwy o bobl i ddeall a gwerthfawrogi treftadaeth adeiledig Cymru'n well.

4.1 Mae ymdrechion marchnata Cadw'n cydnabod pa mor bwysig yw'r henebion i waith Awdurdod Twristiaeth Prydain, Bwrdd Croeso Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau twristiaeth rhanbarthol, consortia marchnata ac eraill sy'n ymwneud â marchnata Cymru, Mae cestyll Cymru'n "bwynt gwerthu unigryw", a byddwn yn parhau i weithio gyda Bwrdd Croeso Cymru a sefydliadau eraill er mwyn creu mentrau marchnata a chorfforaethol.

4.2 Cyflogir staff mewn tri deg un o safleoedd yn ystod y flwyddyn. Rheolir dau ar hugain o'r safleoedd gan geidwaid Cadw, a'r naw arall gan asiantau yn gweithio dan contract i Cadw. Byddwn yn cynnal y targed o ddenu cyfran o'r farchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle treftadaeth fwyaf poblogaidd yng Nghymru.

4.3 Effeithiwyd yn ddifrifol ar y gwaith ar Gastell Dolforwyn a Hafoty (t• hynafol yn Ynys Môn) oherwydd clwy'r traed a'r genau y llynedd, ac roedd yn rhaid gohirio mynediad i'r cyhoedd yn y ddau safle. Bydd Dolforwyn yn cael ei agor i'r cyhoedd erbyn haf 2002, a gobeithio y bydd modd agor Hafoty yn fuan wedi hynny. Comisiynir archwiliad mynediad i'r henebion y gofelir amdanynt er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r mynediad ar gyfer pobl anabl.

4.4 Caiff arddangosfeydd newydd eu gosod ar saith safle, gan gynnwys Caernarfon a Chaerffili, a chaiff arddangosfa deithio ei datblygu ar waith Cadw i ddiogelu a hybu cestyll cynhenid Cymreig dros yr ugain mlynedd diwethaf. Gosodir paneli dehongli newydd neu baneli eraill yn lle'r rhai presennol ar bedwar safle ar bymtheg ledled Cymru, a chyflwynir fformat newydd ar gyfer arweinlyfrau Cadw. Bwriad y newidiadau hyn yw cynyddu'u potensial masnachol a'u gwneud yn haws eu defnyddio heb golli dim ar y cynnwys academaidd. Cyhoeddir pum teitl newydd neu ddiwygiedig yn ystod y flwyddyn.

4.4 Byddwn yn cyhoeddi ac yn dosbarthu tua 3.5 miliwn o eitemau o lenyddiaeth hyrwyddo ddwyieithog, gan gynnwys pamffledi rhanbarthol a thafleuni sy'n benodol i safleoedd. Er mwyn adfer nifer yr ymwelwyr yn dilyn blwyddyn a deimlodd effeithiau clwy'r traed a'r genau, caiff cyhoeddusrwydd ychwanegol ei lansio cyn Pasg 2002, a bydd rhwng 50 a 60 o ddigwyddiadau'n cael eu llwyfannu yn y safleoedd i geisio denu ymwelwyr. Cynhelir dros 110 o ddigwyddiadau eraill drwy gydol gweddill y flwyddyn. Byddwn hefyd yn ymuno â chymdeithasau twristiaeth a chonsortia marchnata i hyrwyddo safleoedd Cadw.

4.5 Fel rhan o'n hymdrechion i addysgu a hysbysu pobl, mae Cadw yn darparu nifer o wasanaethau i ysgolion, gan gynnwys pecynnau adnoddau un pwrpas a thafleuni gwaith ar

gyfer rhai safleoedd. Mae rhan o'r deunydd ar ein gwefan yn benodol at ddefnydd ysgolion. Mae mynediad i safleoedd Cadw am ddim i ysgolion, a byddwn yn parhau i ariannu (ar y cyd ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru) swyddog addysg yng Nghaerleon lle ceir y nifer mwyaf o ymweliadau.

5. Cynhyrchu cymaint o incwm ag y bo modd trwy weithredu henebion dan ei gofal mewn ffordd sy'n gyson â dyletswyddau cadwraeth yr Asiantaeth.

5.1 Bedair blynedd yn ôl cyflwynodd Cadw darged i leihau'r diffyg incwm dros wariant sy'n gysylltiedig â chyflwyno henebion i'r cyhoedd. Ar wahân i gostau cadwraeth, mae mwy o arian yn cael ei wario ar eu cyflwyno (er enghraifft, costau staff a phaneli gwybodaeth) nag sy'n cael ei dderbyn fel incwm ohonynt, felly gellir cyfrifo "cost net fesul ymwelydd". Mae'r targed yn rhoi premiwm ar weithredu'n gost effeithiol tra'n annog yr Asiantaeth i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Syrthiodd y "gost net fesul ymwelydd" o dros 50 ceiniog yng nghanol y 1990au i 35 ceiniog yn 2000-01. Pennwyd targed o 25 ceiniog ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond nid ydym yn debygol o'i gyrraedd oherwydd y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Nid ydym yn argymhell newid y targed o 25 ceiniog yn 2001-02.

5.2 Codir tâl mynediad mewn tri deg un o safleoedd. Cynyddir prisiau tocynnau mynediad, a phrisiau deunydd wedi'i argraffu a gwasanaethau i'r cyhoedd (megis gosod adeiladau), yn unol â chwyddiant.

5.3 Mae'r Asiantaeth wedi gosod targed iddi'i hun i dderbyn £3,576,000 mewn incwm yn 2002-03, gan gynnwys yr elfennau canlynol:

Tocynnau mynediad a gwerthiant	£	3,220,000
Derbyniadau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a chyrrff eraill	£	60,000
TAW a adenillwyd	£	296,000
	£	3,576,000

6. Sicrhau y cedwir cost net gweithgareddau'r Asiantaeth o safbwynt arian cyhoeddus mor isel ag y bo modd.

6.1 Bydd cyllideb rhaglen net o £6,920,000 ar gael i Cadw, sydd ynghyd â'r derbyniadau a enillir (£3,576,000), yn gyfanswm o £10,496,000. (Ceir £4,899,000 yn ychwanegol yn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer costau rhedeg.)

Grantiau Henebion ac Adeiladau Hanesyddol	£	3,904,000
Contractau Rhestru	£	200,000
Archeoleg a mentrau cysylltiedig	£	1,374,000
Cynnal a chadw a datblygu gwaith cadwraeth	£	3,218,000
Gwaith cyflwyno	£	1,800,000
	£	10,496,000
Derbyniadau	£	3,576,000
Darpariaeth net ar gyfer rhaglenni	£	6,290,000
Costau rhedeg	£	4,899,000

6.2 Er bod Cadw wedi contractio nifer o wasanaethau cynnal "yn ôl" i ddarparwyr canolog yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Asiantaeth yn parhau i fod yn uniongyrchol gyfrifol am waith monitro a rheoli ariannol, am sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau'r sector cyhoeddus, y rhan fwyaf o agweddau ar reoli personél, penodiadau cyhoeddus i gyrff trefnadaeth adeiledig, a threfniadau caffael nwyddau a gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau caffael a chydymffurfio er mwyn cryfhau ymhellach ein systemau atebolrwydd, ac yn unol ag anghenion llywodraeth gorfforaethol byddwn yn datblygu Cofrestr Risg a gaiff ei monitro gan y Pwyllgor Rheoli. Yn dilyn ennill statws Buddsoddwr mewn Pobl yn 2000, byddwn yn cael ein hailasesu y flwyddyn nesaf, a byddwn yn gweithredu rhaglen y cytunwyd arni ar ôl ymgynghori â staff er mwyn nodi, yn unol â'r Model Rhagoriaeth Busnes, gyfleoedd i wella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid. Fel Asiantaeth Weithredol, bydd gofyn i Cadw weithio o leiaf 2% yn fwy effeithiol yn 2002-03. Mesurir newidiadau mewn cynhyrchiant gan ddefnyddio mynegai perfformiad a fydd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Asiantaeth.

6.3 Arolygir Asiantaethau Gweithredol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn gyson er mwyn sicrhau bod eu statws yn parhau'n briodol a bod eu hamcanion yn cael eu cyflawni. Adolygir Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn 2001-02, ac mae'n bur debyg y caiff adroddiadau eu cyflwyno i Weinidogion a Phwyllgorau'r Cynulliad yn yr haf a'r hydref (yn ôl y drefn honno). Rhoddir yr argymhellion y cytunwyd arnynt ar waith wedi hynny.

7. Cyflawni'r targedau ariannol ac unrhyw dargedau perfformiad eraill y gellid eu pennu

.

7.1 Mae'r Asiantaeth yn bwriadu cynyddu targed 4 yn y flwyddyn sydd i ddod.

1. Cwblhau 90 y cant o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth a gymeradwywyd
2. Cwblhau 80 o ailarolygon.

3. Penderfynu ar 90 y cant o achosion rhestru lle y mae adeiladau o dan fygythiad o fewn 10 wythnos a 90 o achosion eraill o fewn 17 o wythnosau.
 4. Cofrestru 130 o henebion.
 5. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig o fewn 4 wythnos a 90 y cant o fewn 7 wythnos.
 6. Penderfynu ar 90 y cant o geisiadau caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig o fewn 13 wythnos.
 7. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn 18 wythnos.
 8. Penderfynu ar 80 y cant o geisiadau am grant henebion o fewn 6 wythnos.
 9. Talu 90 y cant o'r ceisiadau a gyflwynir yn gywir ar gyfer grantiau adeiladau hanesyddol a henebion o fewn 5 wythnos ar ôl eu derbyn.
 10. Ennill cyfran o'r farchnad o 63 y cant o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle treftadaeth fwyaf poblogaidd yng Nghymru.
 11. Gostwng y gost net uniongyrchol fesul ymwelydd â safleoedd Cadw i 25 ceiniog ar gyfartaledd.
 12. Gweithredu o fewn y cyllidebau rhaglen a chostau rhedeg a ddyrannwyd.
13. Gweithredu o leiaf 2 y cant yn fwy effeithiol.

Cadw

Chwefror 2001